



Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2019

Rhaglenni Llywodraeth Cymru
sy'n gwneud gwahaniaeth

Rhagfyr 2019



Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2019

Rhaglenni Llywodraeth Cymru sy'n gwneud gwahaniaeth

Fel rhan o'n hymrwymiad i drechu tlodi mae gan bob Gweinidog ar draws pob portffolio gyfrifoldeb am wella canlyniadau. Mae Llywodraeth Cymru o blaid darparu 'cyflog cymdeithasol' mwy hael – gwasanaethau sy'n cyfateb i arian parod sy'n sicrhau bod arian yn cael ei adael ym mhocedi dinasyddion Cymru. Gall hyn olygu bod rhai teuluoedd yng Nghymru fwy na £2,000 yn well eu byd nag y byddent fel arall, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau penodol. Mae'r ffeithlen hon yn manylu ar y cyfraniadau trawslywodraethol at drechu tlodi a'r canlyniadau o ran buddiolwyr¹.

Cynnwys

Cadw arian ym mhocedi pobl	3
Cefnogi plant a phobl ifanc	3
Cefnogi hyfforddiant a chyflogaeth	4
Cefnogi costau byw bob dydd	5
Cefnogi iechyd a llesiant	5
Gwasanaethau sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd difreintiedig	6
Rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd	6
Helpu pobl i gael gwaith	7
Darparu cartrefi ac atal digartrefedd	8
Cynyddu incwm	8

¹ Oni nodir fel arall mae'r holl gyllidebau'n ymwneud â 2019/20 ac mae'r holl ganlyniadau'n gysylltiedig â data 2018/19

Cadw arian ym mhocedi pobl

Cefnogi plant a phobl ifanc

- £5.1 miliwn, **Grant Datblygu Disgyblion** – Mynediad – cyllid i deuluoedd er mwyn eu helpu i brynu gwisg ysgol a chit chwaraeon, offer ar gyfer tripiâu y tu allan i oriau'r ysgol, ac offer ar gyfer gweithgareddau'r cwricwlwm fel dylunio a thechnoleg.
Canlyniadau: Bydd data ar gael ym mis Ionawr.
- **Prydau Ysgol Am Ddim** – ariennir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys drwy gyllid y Setliad Llywodraeth Leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £7 miliwn ychwanegol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol yn 2019-20 er mwyn ariannu'r costau prydau ysgol am ddim ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r meini prawf cymhwysedd newydd a'r system amddiffyn wrth bontio. Mae hyn yn ychwanegol at y £5 miliwn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn 2018-19 er mwyn ariannu'r costau ychwanegol sy'n deillio o gyflwyno Credyd Cynhwysol.
Canlyniadau: Roedd 78,902 o ddisgyblion wedi'u nodi'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru ym mis Ionawr 2019². Yn sgil ein meini prawf cymhwysedd newydd (a gyflwynwyd fis Ebrill 2019), rydym yn amcangyfrif y bydd mwy o blant yn elwa ar brydau ysgol am ddim erbyn y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn, o gymharu â'r system fudd-daliadau flaenorol.
- **Cynllun Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd** – brecwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd i blant nad ydynt wedi cael brecwast gartref. Ariennir y cynllun fel rhan o'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol.
Canlyniadau: Roedd 61,487 o blant oed ysgol gynradd yn manteisio ar y cynllun hwn ym mis Ionawr 2019².
- £3.2 miliwn, **Cynllun Llaeth Ysgol** – llaeth am ddim yn yr ysgol i blant y Cyfnod Sylfaen a llaeth a gymorthdelir i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2.
Canlyniadau: Roedd 112,354 o ddisgyblion yn cael llaeth am ddim yn yr ysgol ym mis Ionawr 2019².
- £800,000, **Rhaglen Gwella Gwyliâu'r Haf** – cyfleoedd i blant 7-11 oed gadw'n heini, bwyta'n iach a meithrin cyfeillgarwch gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleusterau'r ysgol leol mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwyliau'r haf.
Canlyniadau: Yr haf hwn cafodd dros 3,700 o leoedd eu cynnig i ddisgyblion mewn 77 o gynlluniau ar draws 21 o awdurdodau lleol yng Nghymru.
- £100,000, **Newyn Gwyliâu – Cynllun Peilot Playworks** – cynhaliwyd y cynllun dros wyliau haf a thoriad hanner tymor mis Hydref 2019 er mwyn galluogi lleoliadau cymunedol a chwarae presennol i ymestyn neu wella eu darpariaeth bwyd neu leoedd i blant a phobl ifanc mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o amddifadedd a risg o newyn gwyliau.
Canlyniadau: Mae'r wybodaeth fonitro wrthi'n cael ei dadansoddi, a bydd ar gael ym mis Rhagfyr 2019.
- £3.1 miliwn, **Urddas yn ystod Mislif** – cynhyrchion mislif am ddim i bobl ifanc mewn ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach.
Canlyniadau: Bydd y cyllid i ysgolion yn helpu mwy na 140,000 o ddisgyblion a bydd y cyllid i sefydliadau Addysg Bellach yn helpu bron 53,000 o fyfyrwyr yn 2019/20.

² <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Provision-of-Meals-and-Milk>

Cefnogi hyfforddiant a chyflogaeth

- £40 miliwn, **Cynnig Gofal Plant Cymru** – 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant rhieni sy'n gweithio, gan helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu eu horiau.
Canlyniadau: Ar ddiwedd mis Gorffennaf, roedd bron 16,000 o blant tair neu bedair oed yn manteisio ar ofal plant a ariennir gan y llywodraeth. Mae rhiant nodweddiadol y mae ei blentyn yn manteisio ar 20 awr o ofal plant bob wythnos yn cael yr hyn sy'n cyfateb i £90 yn fwy yn ei boced bob wythnos.
- £7.5 miliwn **Cynllun Rhyddhad Ardrethi** – cefnogi'r pob darparwr gofal plant gyda 100% o ryddhad ar eu biliau ardrethi annomestig am gyfnod o dair blynedd o 2018-19 hyd at 2020-21.
Canlyniadau: Helpu i gadw costau gofal plant i lawr i rieni plant ifanc.
- £17 miliwn, **Y Lwfans Cynhaliath Addysg** – £30 yr wythnos i bobl ifanc 16-18 oed sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, sydd am barhau â'u haddysg.
Canlyniadau: Yn 2018/19, cafodd 20,855 o bobl ifanc fudd o'r fenter hon i barhau â'u haddysg ar ôl iddynt gyrraedd oedran gadael yr ysgol.
- £5 miliwn, **Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach** – grantiau o hyd at £1,500 ar gyfer cwrs llawn amser neu hyd at £750 ar gyfer cwrs rhan amser i fyfyrwyr 19 oed neu drosodd o aelwydydd incwm isel.
Canlyniadau: Yn 2018/19, cafodd 4,785 o fyfyrwyr addysg bellach, a allai gael anhawster ariannol wrth ddilyn cyrsiau addysg ôl-orfodol fel arall, fudd o'r grant hwn.
- **Cymorth ar gyfer Astudiaethau Israddedig** – grant cynhaliath nad yw'n dibynnu ar brawf modd o £1,000 y flwyddyn i bob myfyriwr. Mae myfyriwyr o aelwydydd incwm isel yn cael grant o hyd at £8,100 a benthyciad tuag at eu costau byw oddi cartref.
Canlyniadau: Bydd ystadegau dros dro ar niferoedd y myfyriwyr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19 ar gael ym mis Rhagfyr.
- **Bwrsariaeth GIG** – Cost ffioedd dysgu, bwrsariaeth ar gyfer costau byw sy'n cynnwys £1,000 o grant heb brawf modd, ac os yw'n gymwys, mynediad i fenthyciad gostyngol i fyfyrwyr ar gyfer pobl sy'n astudio rhaglen berthnasol o ofal iechyd yng Nghymru.
Canlyniadau: Hyd at 2023, bydd myfyriwyr gofal iechyd, a fyddai fel arall yn cael anhawster ariannol wrth ymgymryd â chwrs sy'n gysylltiedig â iechyd yng Nghymru, yn elwa.
- **Cymorth i Fyfyrwyr Gradd Feistr Ôl-raddedig** – Grant nad yw'n dibynnu ar brawf modd o £1,000 a chyfraniad sy'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £5,885 i fyfyrwyr o aelwydydd incwm isel.
Canlyniadau: Bydd ystadegau dros dro ar niferoedd y myfyriwyr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19 ar gael ym mis Rhagfyr.
- £1 miliwn, **Cronfa Dydd Gŵyl Dewi** – cymorth ariannol ymarferol i'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn eu helpu i fyw'n annibynnol gyda ffocws cryf ar atal digartrefedd. Buddsoddwyd £1m arall yng Nghronfa Dydd Gŵyl Dewi, yn 2018-19 yn unig, i ddyblu'r gronfa bresennol a chryfhau'r cymorth ariannol uniongyrchol sydd ar gael i'r rheini sy'n gadael gofal, i'w helpu i gymryd y cam a dysgu byw'n annibynnol.
Canlyniadau: Yn 2017/18, cafodd dros 1,900 o blant sydd wedi bod mewn gofal ledled Cymru arian drwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi er mwyn eu helpu i bontio i fyd oedolyn ac annibyniaeth.

Cefnogi costau byw bob dydd

- £244 miliwn, **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** – mae un o bob pum aelwyd yn manteisio ar ostyngiad yn y dreth gyngor.
Canlyniadau: Yn 2018/19, roedd bron i 280,000 o aelwydydd agored i niwed ac incwm isel yng Nghymru yn parhau i gael eu diogelu rhag unrhyw gynnydd yn eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, gyda 220,000 ohonynt yn parhau i beidio â gorfod talu unrhyw dreth gyngor o gwbl. Ar gyfartaledd, rhoddwyd gwerth tua £940 y flwyddyn o gymorth i aelwydydd o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2018/19. Ochr yn ochr â'r cynllun gostyngiadau, mae dros hanner miliwn o aelwydydd yn cael disgownt ac esemptiadau ar eu biliau treth gyngor bob blwyddyn. Mae llawer o'r disgowntiau hyn yn helpu aelwydydd sydd mewn perygl uwch o dlodi.
- £60 miliwn, **Teithiau Bws Am Ddim** – teithiau bws lleol am ddim i bobl 60 oed neu drosodd neu bobl anabl, gyda mwy na 730,000 o basys yn cael eu defnyddio.
Canlyniadau: Aeth deiliaid pasys ar tua 45.4 miliwn o deithiau bws am ddim yn ystod 2018-19.
- £2 filiwn, **Teithiau Bws Rhatach i Bobl Ifanc** – gostyngiad o draean i bobl ifanc 16-21 oed ar deithiau gwasanaethau bws lleol i unrhyw le yng Nghymru at unrhyw ddiben.
Canlyniadau: Yn ystod 2018-19, gwnaed tua 1.7 miliwn o deithiau rhatach gan ddefnyddio Fy Ngherdyn Teithio.
- £1 miliwn, **Teithio am Ddim ar Wasanaethau TrawsCymru** – teithio am ddim i bawb ar wasanaethau bws TrawsCymru ar benwythnosau.
Canlyniadau: Rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2018, cafodd 81,000 o deithwyr ychwanegol eu cludo gan rwydwaith TrawsCymru, sef cynnydd o 32% o gymharu â'r un cyfnod yn 2017.
- £26 miliwn, **Rhaglen Cartrefi Clyd** – gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd domestig drwy raglenni fel Nyth ac Arbed, gan sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU.
Canlyniadau: Mae'r buddsoddiad hwn wedi gwella effeithlonrwydd ynni mwy na 55,000 o gartrefi yng Nghymru ers 2009, gan arbed tua £400 y flwyddyn ar gyfartaledd i dalwyr biliau tanwydd domestig.
- £10.2 miliwn, **Y Gronfa Cymorth Dewisol** – cymorth ariannol brys mewn argyfwng i brynu bwyd, nwy a thrydan a darparu hanfodion ar gyfer y cartref.
Canlyniadau: Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi cefnogi 259,700 o ddyfarndaliadau i'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru, gyda £52.4 miliwn o grantiau wedi'u talu ers mis Ebrill 2013.

Cefnogi iechyd a llesiant

- £578 miliwn, **Presgripsiynau am ddim** – rhoi'r feddyginiaeth sydd ei hangen ar bobl i'w cadw'n iach.
Canlyniadau: Yn 2018-19, cafodd 80,145,953 o eitemau eu rhagnodi gan feddygon teulu yng Nghymru a'u dosbarthu yn y gymuned.
- **Help gyda Chostau Iechyd (Cynllun Incwm Isel y GIG)** – mae pobl sy'n gymwys i gael budd-daliadau neu gredydau treth penodol sy'n dibynnu ar brawf modd yn gymwys i gael amrywiaeth o wasanaethau iechyd, gan gynnwys triniaeth ddeintyddol am ddim, profion llygaid, help tuag at gostau sbectol, ac ad-daliad ar gyfer costau teithio i'r ysbyty tra eu bod o dan ofal meddyg ymgynghorol.

Canlyniadau: Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019, gwnaed tua 4,320 o hawliadau i'r Cynllun Incwm Isel, y cafodd 2,140 ohonynt eithriad llawn a 1,235 ohonynt eithriad rhannol rhag talu costau triniaeth ddeintyddol ac optegol a chostau teithio i'r ysbyty o dan ofal meddyg ymgynghorol.

- £6.9 miliwn, **Talebau Cychwyn Iach a'r Cynllun Llaeth Meithrin** – talebau i fenywod beichiog, mamau newydd a phlant dan 4 oed o aelwydydd incwm isel er mwyn prynu ffrwythau a llysiau, llaeth a fformiwla babanod a lluosfitaminau atodol. Mae'r Cynllun Llaeth Meithrin yn darparu diod o laeth/fformiwla babanod am ddim i blant dan 5 oed sy'n cael gofal plant am ddwy awr neu fwy.

Canlyniadau: O 10^{fed} wythnos y bechiogrwydd hyd at ben-blwydd y plentyn yn 4 oed, gall y rhai sy'n cael Cychwyn Iach arbed bron £900 oddi ar gost ffrwythau a llysiau, llaeth a fformiwla babanod, a chael fitaminau am ddim. Mae 17,000 o fenywod a phlant yng Nghymru yn cael talebau Cychwyn Iach ar hyn o bryd, sef tua 70% o'r rhai sy'n gymwys.

- £280,000 **Rhaglen Cyfuno** – annog sefydliadau diwylliant a threftadaeth i weithio'n agosach gyda chyrrff fel awdurdodau lleol er mwyn cynyddu nifer y cyfleoedd ac annog pobl mewn ardaloedd dan anfantais economaidd i gymryd rhan mewn diwylliant a threftadaeth, gan eu cefnogi i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir.

Canlyniadau: Deallir bod dros 15,000 o unigolion wedi cael ymyriadau drwy'r rhaglen yn ystod 2018-2019.

- £1.5 miliwn **Nofio Am Ddim** – 60% o sesiynau nofio am ddim wedi'u targedu at bobl ifanc dan 16 oed a 40% wedi'u targedu at bobl 16 oed a throsodd o rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Canlyniadau: Megis dechrau y mae'r cynllun newydd felly nid yw'r niferoedd ar gael eto.

- **Mynediad am ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol** – dileu'r rhwystr ariannol i ymwelwyr â saith amgueddfa Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru.

Canlyniadau: Mae mynediad am ddim i weithgareddau diwylliannol wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr ag Amgueddfeydd Cymru i 1.887 miliwn yn 2018-19, gyda thros 208,000 o bobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

- Darparwyd £59.1m o **Ryddhad Ardrethi Annomestig** i fudiadau elusennol a chymunedol yn 2017-18.

Canlyniadau: Cefnogi'r ddarpariaeth o ystod eang o weithgarwch iechyd, lles ac addysg.

Gwasanaethau sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd difreintiedig

Rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd

- £73.7 miliwn o refeniw, £529,000 o gyfalaf, **Dechrau'n Deg** – darparu gwasanaeth ymwelydd iechyd, mynediad i raglenni rhianta, cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu a gofal plant rhan amser o safon i deuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Canlyniadau: Am y pumed flwyddyn yn olynol, mae rhaglen Dechrau'n Deg wedi cyflawni ei tharged o gefnogi dros 36,000 o deuluoedd yng Nghymru flwyddyn ar ôl blwyddyn.

- £37.6 miliwn, **Teuluoedd yn Gyntaf** – gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi.
Canlyniadau: Mae'r flwyddyn lawn ddiwethaf o ddata Teuluoedd yn Gyntaf sydd ar gael ar hyn o bryd, sef 2017/18, yn dangos bod dros 12,900 o deuluoedd wedi cael eu hatgyfeirio at y Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd er mwyn mesur lefel eu hangen yn 2017/18. Mae'r data hefyd yn dangos bod dros 4,400 o'r teuluoedd hynny a atgyfeiriwyd wedi mynd ymlaen i lofnodi cynllun gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu er mwyn sicrhau cymorth aml-asiantaethol effeithiol.
- £36 miliwn, **Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod** – mae £16 miliwn o refeniw ac £20 miliwn o gyfalaf ar gael yn ystod tymor y Cynulliad hwn, gan dargedu maint dosbarthiadau mewn ysgolion sydd â'r lefel uchaf o brydau ysgol am ddim / anghenion ychwanegol neu lle mae angen gwella safonau.
Canlyniadau: Mae 95 o athrawon ychwanegol a 40 o gynorthwywr addysgu ychwanegol yn darparu amser cyswllt athro-disgybl effeithiol er mwyn codi safonau. Ar hyn o bryd mae 59 o ystafelloedd dosbarth newydd ac ychwanegol yn cael eu creu mewn 33 o ysgolion, gan gynnwys gwelliannau i'r cyfleusterau presennol.
- £3.7 miliwn, **Cynllun Gwên** – atal pydredd dannedd ymhlith plant hyd at 5 oed drwy ddarparu gofal ataliol i feithrinfeydd ac ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig.
Canlyniadau: Mae dros 90,000 o blant yn cael gofal mewn mwy na 1,200 o leoliadau.
- £93.7 miliwn, **Grant Datblygu Ysgolion** – gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal, dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a phlant tair a phedair oed difreintiedig mewn addysg Cyfnod Sylfaen a ariennir.
Canlyniadau: Ers ei gyflwyno yn 2012, rydym wedi dyrannu mwy na £475 miliwn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, gan helpu dros 530,000 o blant a phobl ifanc i wireddu eu potensial.

Helpu pobl i gael gwaith

- £15.9 miliwn **Cymunedau am Waith** – rhaglen a ariennir drwy arian cyfatebol gan Gronfa Cymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru – helpu pobl sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i gael gwaith.
Canlyniadau: Yn 2018-19, cymerodd 6,325 o bobl ran yn y rhaglen, gyda 2,739 ohonynt yn dod o hyd i waith. Ar gyfer 2019-20 hyd at ddiwedd mis Medi 2019, roedd 3,263 o bobl wedi cymryd rhan yn y rhaglen ac roedd 1,615 ohonynt wedi dod o hyd i waith.
- £12 miliwn, **Cymunedau am Waith a Mwy** – cymorth cyflogadwyedd i bobl mewn tlodi neu sydd mewn perygl o fynd i dlodi.
Canlyniadau: Yn 2018-19, cymerodd 7,943 o bobl ran yn y rhaglen, gyda 2,227 ohonynt yn dod o hyd i waith. Ar gyfer 2019-20 hyd at ddiwedd mis Medi 2019, roedd 4,048 o bobl wedi cymryd rhan yn y rhaglen ac roedd 1,700 ohonynt wedi dod o hyd i waith.
- £3.4 miliwn (cyllideb 2019/20 **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)**) – rhaglen a ariennir drwy arian cyfatebol gan Gronfa Cymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru – helpu rhieni economaidd anweithgar i oresgyn rhwystrau o ran gofal plant a rhwystrau eraill i hyfforddiant a gwaith.
Canlyniadau: Yn ystod 2018-19, cefnogodd PaCE 1,018 o gyfranogwyr drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra un i un, gyda 278 o'r gyfranogwyr hynny yn dod o hyd i waith.

- £17.3 miliwn, rhaglen a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, **Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith** – helpu pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, pobl economaidd anweithgar a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac sy'n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau neu salwch meddwl i gael gwaith.
Canlyniadau: Roedd 3,615 wedi'u cofrestru â'r gwasanaeth yn 2018/19. O blith y cyfranogwyr a adawodd y gwasanaeth yn 2018/19, dywedodd 855 ohonynt eu bod wedi ennill cymhwyster a fyddai'n eu helpu i gael gwaith yn y dyfodol a dywedodd 378 ohonynt eu bod wedi dechrau gwaith.

Darparu cartrefi ac atal digartrefedd

- £126 miliwn **Grant Cefnogi Pobl / Cymorth Tai** – darparu gwasanaethau i bobl ddigartref, pobl sydd mewn tai i'r rhai sy'n agored i niwed a phobl y mae angen cymorth arnynt i'w hatal rhag gorfod symud i leoliadau sefydliadol.
Canlyniadau: Mae'r rhaglen yn helpu i atal tua 60,000 o bobl bob blwyddyn rhag mynd yn ddigartref a gorfod symud i leoliadau sefydliadol.
- £116 miliwn, **Targed 20,000 o Gartrefi Fforddiadwy** – darparu tai da fforddiadwy ychwanegol i bobl y mae eu hangen arnynt drwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol.
Canlyniadau: Yn ystod 2018-19, darparwyd 2,592 o unedau tai fforddiadwy i'r bobl yr oedd eu hangen arnynt ledled Cymru, gan gynnwys teuluoedd â phlant.
- £4.8 miliwn, **Cronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref** – ariannu cymorth ac opsiynau tai addas i bobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal.
Canlyniadau: Dyma gyfres o brosiectau newydd a ddechreuwyd yn 2019-20, felly nid oes data wedi'u casglu eto.
- £3.7 miliwn **Grant Cymorth Ieuenctid** – er mwyn adeiladu ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i atal pobl ifanc rhag mynd yn ddigartref.
Canlyniadau: Mae hwn yn gyllid newydd felly nid oes data wedi'u casglu eto.
- £250,000, **Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc Ddigartref** – codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd cudd a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc.
Canlyniadau: Mae hwn yn brosiect newydd felly nid oes data wedi'u casglu eto. Disgwylir data cychwynnol o gam cyntaf yr ymgyrch ym mis Ionawr 2020.
- £250,000, **Cymorth Tenantiaeth i Bobl Ifanc Ddigartref** – atal pobl ifanc rhag cael eu troi allan a darparu cymorth tenantiaeth.
Canlyniadau: Nid oes data wedi'u casglu gan nad yw'r ymgyrch yn fyw eto, felly bydd data ar gael ym mis Ionawr 2020.

Cynnyddu incwm

- £8.04 miliwn, **Y Gronfa Gyngori Sengl** – galluogi'r aelwydydd mwyaf agored i niwed mewn cymunedau lleol i gael gafael ar wybodaeth a chymorth.
Canlyniadau: Bydd y gwasanaethau cyngori sy'n cael eu cyflawni drwy'r Gronfa Gyngori Sengl yn cychwyn ar 01/01/2020. Rhagwelir erbyn 31/12/2020, y bydd dros 60,000 o bobl wedi cael yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i ddatrys eu problemau lles cymdeithasol, gan leihau eu straen a'u pryder a gwella'u iechyd a'u lles.

- £922,000, **Undebau Credyd** – cefnogi amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cynilion a benthyciadau, rhent a chynhyrchion cyllidebu, a helpu pobl i wneud dewisiadau ariannol da ac osgoi benthycwyr anghyfrifol.
Canlyniadau: Mae tua 70,000 o oedolion yn elwa ar fod yn aelod o Undeb Credyd yng Nghymru.